| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 10 Mawrth 2022 |
| **TEITL** | Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Amgylchedd |
| **AELOD CABINET** | Y Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd |
| **PWRPAS** | Diweddariad ar yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud ar hyn o bryd i ymateb i'r heriau newid hinsawdd a natur a chamau eraill sydd yn ymarferol i'r Cyngor weithredu arnynt i'r dyfodol. |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyhoeddodd y Cyngor argyfwng hinsawdd yn eu cyfarfod ar 7 o Fawrth 2019, gan ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau ein cyfraniad at y materion hynny sy'n achosi newid hinsawdd a diogelu'n cymunedau o'i effeithiau.

1.2 Yng nghyfarfod y Cyngor ar 19 Rhagfyr 2019 fe benderfynwyd i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith oedd yn nodi bod tasglu wedi ei sefydlu gan y Cabinet – Bwrdd Newid Hinsawdd – ac y byddai'n llunio 'Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd'.

1.3 Cyflwynwyd adroddiad i'r pwyllgor hwn ar 23 Medi 2021 yn rhoi diweddariad ar y gwaith, gan esbonio:

- Bod Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd wedi ei benodi yng Ngorffennaf 2021 i arwain y gwaith o greu cynllun gweithredu
- Bod gwaith mapio darpariaeth a gweithgareddau gan y cyngor yn y maes newid hinsawdd eisoes ar waith a chyflwynwyd enghreifftiau o brosiectau perthnasol
- Bod yna gamau pellach eisoes wedi eu hadnabod – e.e. sut all y cyngor weithredu ei ddyletswydd statudol o fewn y Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth; bydd angen ymgorffori strategaethau llifogydd, fflyd a gwastraff i mewn i'r cynllun gweithredu hinsawdd; sut orau fedrwn ni hyrwyddo'r economi gylchol; bydd angen i'r cyngor ymgynghori'n ehangach yn y dyfodol ar sut fedrwn ni leihau allyriadau carbon Gwynedd fel sir.

## 2. DIWEDDARIAD

2.1 Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Erbyn i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau gael ei gynnal ar 10 Mawrth byddwn yn gwybod os fydd y cynllun wedi ei fabwysiadu a'i peidio. Mae'r papurau perthnasol i gyd i'w gweld o dan Eitem 6 ar agenda'r cyfarfod drwy ddilyn y ddolen yma - Rhaglen ar gyfer Y Cabinet ar Dydd Mawrth, 8fed Mawrth, 2022, 1.00 y.h. (llyw.cymru). Neu mae'r cynllun wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

2.2 Cafodd cynnwys y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ei lywio gan y Bwrdd Newid Hinsawdd, oedd yn cynnwys aelodaeth o Aelodau Cabinet a Phrif Swyddogion. Dymuniad y Bwrdd hwnnw oedd ychwanegu at yr aelodaeth, ac fe benderfynwyd i wahodd y Pencampwr

Bioamrywiaeth a chynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i ddod yn aelodau sefydlog. Bellach mae'r Cyng. Angela Russell a'r Cyng. Mike Stevens wedi ymuno â'r Bwrdd Newid Hinsawdd drwy lenwi'r ddwy rôl honno.

2.3 Bydd y cynllun yn cael ei fonitro drwy drefniadau monitro perfformiad arferol y Cyngor: adroddiadau perfformiad Aelodau Cabinet i gyfarfodydd y Cabinet ac Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd. Byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiad data ar lefelau allyriadau ac amsugno carbon yn flynyddol i Lywodraeth Cymru a bydd y data hwnnw hefyd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Gall y Pwyllgor Craffu hefyd, wrth gwrs, ofyn am ddiweddariadau ar y cynllun neu ar brosiectau unigol o fewn iddo.

**3. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

3.1 Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur sydd wedi ei gyhoeddi yn pwysleisio mai cynllun ar gyfer 'Cam 1' ydyw. Bydd 'Cam 2' y Cynllun i ddilyn erbyn 2023/24 ar ôl i ni gynnal ymgynghoriadau, a bydd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am sut y gallwn gefnogi gweithgareddau yn y gymuned ac sut i ymateb i'r perygl o lifogydd.

3.2 Mae'r cynllun yn datgan yn agored nad yw'r gyllideb sydd gennym fel cyngor ar hyn o bryd yn ddigonol i gyllido costau'r holl brosiectau yn y cynllun yn llawn. Mae yna waith pellach i'w wneud felly er mwyn adnabod yr holl gostau yn llawn ac i roi pwysau ar lywodraethau, ac eraill, er mwyn denu mwy o incwm. Bydd adroddiad ariannol pellach yn cael ei baratoi at sylw'r Bwrdd Newid Hinsawdd a'r Cabinet er mwyn blaenoriaethu pa waith i'w ariannu dros y 3 mlynedd nesaf.

**ATODIADAU**

Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur